Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Meidrim

**Meidrim**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA33 5QN**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi cynnig ar ein trefniadau arolygu newydd. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector..**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Meidrim

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Meidrim |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | Ddim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 31 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 22 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | Ddim yn berthnasol |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 27.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 40.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (categorïau A-C) | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Mehefin 2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/04/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae ethos cyfeillgar yn bodoli yn Ysgol Meidrim. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Mae pawb yn cael eu parchu ac mae bron bob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion, yn enwedig y disgyblion ieuengaf. Maent yn cyd-chwarae'n hapus gyda'i gilydd ac mae'r staff yn eu hannog i fod yn gwrtais a chyfeillgar. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o rai o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, dros amser, nid yw arweinwyr wedi defnyddio canfyddiadau'r prosesau hyn yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael ag elfennau pwysig o ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Er enghraifft, mae nifer o'r argymhellion yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn faterion pwysig i'w gwella i'r ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i ennyn diddordeb disgyblion. Er hyn, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon pwrpasol er mwyn sicrhau cynnydd adeiladol ym medrau'r disgyblion dros amser. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael eu herio'n briodol ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan staff berthynas waith ofalgar â'r disgyblion. Maent yn darparu adborth priodol i gefnogi disgyblion wrth eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon cyson i ymateb i'r adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae trefniadau'r ysgol i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn addas. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau amrywiol er mwyn cefnogi anghenion y disgyblion yn briodol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 4 argymhellion i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Diffinio a datblygu cyfrifoldebau arweinwyr er mwyn gweithredu'n fwy strategol gan sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella

A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus ar draws y meysydd dysgu dros amser, gan osod her briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Sicrhau bod adborth athrawon a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb iddo yn cael ei weithredu'n fwriadus i'w cefnogi i wella eu gwaith a chodi safonau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth addas i greu cymuned gartrefol a gofalgar yn yr ysgol sy'n blaenoriaethu cydraddoldeb a pharch. Mae staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac yn sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel. Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol, gyda hyn yn meithrin a hybu dealltwriaeth y disgyblion o'u cymuned leol yn briodol.

Mae arweinwyr wedi dechrau adnabod cryfderau a rhai o'r prif feysydd i'w gwella yn yr ysgol. Er hyn, nid oes gan arweinwyr brosesau hunanwerthuso clir a thrylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd pwysig hyn i'w gwella. Nid yw staff na'r llywodraethwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso. Dros amser, nid yw arweinwyr wedi defnyddio canfyddiadau'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant i ddatblygu elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Er enghraifft, mae nifer o argymhellion yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn faterion pwysig i'w gwella i'r ysgol.

Mae gan aelodau'r corff ddealltwriaeth addas o brif gryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae aelodau'r isbwyllgorau yn cyfarfod i drafod materion pwysig sy'n codi ac yn rhoi cymorth ac arweiniad priodol i'r pennaeth, pan fo angen. Ar adegau, maent yn gweithredu i gefnogi a herio'r pennaeth am agweddau cyffredinol o'r addysgu a'r dysgu. Caiff hyn ei gyflawni trwy holi cwestiynau addas yn seiliedig ar ddata am gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cyflawni eu rôl yn ddigon craff nac yn cyfrannu'n ddigon strategol i wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnig ystod addas o gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ac ymweld ag ysgolion cyfagos sy'n cysylltu â rhai o flaenoriaethau strategol yr ysgol. Er enghraifft, mae staff wedi mynychu hyfforddiant ynglŷn â sut i addysgu mathemateg i'r disgyblion ieuengaf. Fodd bynnag, mae effaith y cyfleoedd ar ansawdd yr addysgu a safonau'r dysgu ar draws yr ysgol yn gyfyngedig.

At ei gilydd, mae athrawon yn darparu profiadau addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn adeiladol dros amser. O ganlyniad,

mae bylchau amlwg yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Yn ogystal, mae hyn yn golygu nad yw athrawon yn datblygu'r ystod lawn o fedrau'r disgyblion nac yn eu herio'n bwrpasol ar draws yr ystod gallu.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n ufudd ar gyfraniadau eu cyfoedion a chyfarwyddiadau oedolion. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i'w siarad a mwynhau eu dysgu. Mae arweinwyr wedi dyrannu cyllid yn briodol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu hyder a'u rhuglder yn y Gymraeg yn addas. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar disgyblion.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac i ganfod ystyr testun. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau darllen yn addas.

Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ysgrifennu cyfres o frawddegau syml gan gynnwys prif lythrennau ac atalnodi clir yn briodol. Maent yn cael cyfleoedd i ysgrifennu amrywiaeth berthnasol o destunau ar y cyd â'u cyfoedion. Er hyn, o ganlyniad i ddiffyg cynllunio pwrpasol, nid yw medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion yn cael eu datblygu'n gydlynus. Ar frig yr ysgol, pan gaiff y disgyblion gyfle i ysgrifennu'n annibynnol, maent yn ysgrifennu mewn modd diddorol gan ddefnyddio atalnodi pwrpasol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu'n ymestynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau.

Mae mwyafrif o'r disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau i ddeg, ac yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o werth digidau trwy gyfri hyd at 100. Maent yn dechrau adnabod priodweddau siapiau 2D ac yn datblygu dealltwriaeth o'r cysyniad o hyd a lled trwy fesur gwrthrychau cyfarwydd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau datblygu medrau casglu data sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn defnyddio adio a thynnu gyda pheth hyder. Fodd bynnag, gan nad ydynt yn cael cyfleoedd digonol i ddatblygu cysyniadau mathemategol, er enghraifft lluosi a rhannu, mae cynnydd ym medrau rhifedd disgyblion yn gyfyngedig. Yn gyffredinol, nid yw disgwyliadau athrawon o ran y disgyblion hynaf yn ddigon uchel er mwyn eu cymell i gyflawni'n dda.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau digidol yn briodol i greu graffiau, lluniau ac animeiddiad syml. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau digidol yn berthnasol, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau safonol am wledydd y gemau Olympaidd.

Mae staff yn darparu adborth llafar addas i gefnogi disgyblion i wybod beth maent yn ei gyflawni'n dda. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i wella a mireinio cynnwys ac ansawdd eu gwaith yn dilyn adborth. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon y disgyblion hynaf yn eu cefnogi i wella eu gwaith a gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu i godi safonau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ymgymryd â'u tasgau yn annibynnol gan ganolbwyntio'n dda am gyfnodau penodol. Er hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd

cyfyngedig i gyfrannu eu syniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith. Yn ogystal, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn darparu digon o gyfleoedd iddynt arbrofi a dysgu trwy chwarae. Mae hyn yn ei dro yn llesteirio brwdfrydedd disgyblion at eu dysgu ac yn cyfyngu ar eu gallu i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae gan yr holl staff berthynas waith gadarnhaol â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ofalgar a chynhwysol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd addas o'u staff cymorth, ac ar y cyd, maent yn cefnogi dysgu a lles disgyblion yn briodol. Mae'r Llecyn Lles yn adnodd gwerthfawr ac yn gyfrwng effeithiol i ddisgyblion gofnodi eu teimladau yn ddyddiol. Mae'r disgyblion yn barod i drafod eu pryderon â staff, sy'n sicrhau eu bod yn teimlo'n rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu, emosiynol, iechyd a chymdeithasol. Mae staff a disgyblion wedi dysgu sut i arwyddo, er mwyn creu cymuned gynhwysol i gefnogi pob disgybl. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol yn ymgysylltu'n briodol ag ystod o sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol amrywiol, fel gweithwyr iechyd a'r seicolegydd addysg, er mwyn cefnogi disgyblion sydd wedi eu hadnabod ag anghenion penodol. O ganlyniad, mae'r trefniadau i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol.

Mae staff yn annog cwrteisi a chyfeillgarwch yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r disgwyliadau ohonynt o ran ymddwyn yn briodol. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol, gydag ymdeimlad cryf o barch sydd gan ddisgyblion at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn gyson dda.

Mae bron bob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac maent yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion. Enghraifft nodedig o hyn yw'r gofal y mae'r disgyblion hynaf yn ei ddangos tuag at y disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd egwyl er mwyn cynnwys pob un yn eu chwarae. Mae aelodau'r Llysgenhadon Efydd Chwaraeon wedi cael hyfforddiant i arwain gemau'r buarth, ac yn arwain sesiynau'n frwd yn achlysurol. Mae hyn yn dechrau cryfhau agwedd disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau a datblygu eu medrau arwain.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn peri pryder. Cyhoeddwyd llythyr lles ac argymhelliad ar gyfer gwella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  26/06/2024